# Asesiadau mynediad plant

Canllawiau

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................3

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r canllawiau hyn yn helpu darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf') i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn y Ddeddf yng nghyswllt asesiadau mynediad plant.

1.2 Mae'n rhaid i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ('U2U') a gwasanaeth chwilio sy'n cael eu rheoleiddio ('gwasanaethau Rhan 3' gyda'i gilydd[1])) gynnal asesiadau mynediad plant.[2]

1.3 Mae asesiad o fynediad plant yn broses i ganfod a yw plant yn debygol o gael mynediad at wasanaeth.[3] Yn y Ddeddf mae plentyn yn cael ei ddiffinio fel rhywun o dan 18 oed.

1.4 Rydym yn rhagweld y bydd plant yn debygol o gael mynediad, o fewn ystyr y Ddeddf, at y rhan fwyaf o wasanaethau Rhan 3 nad ydynt yn defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn.[4]

1.5 Efallai eich bod eisoes wedi asesu a yw plant yn debygol o gael mynediad at wasanaeth fel y nodir yng Nghod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth at ddibenion cydymffurfio â rheoliadau diogelu data.[5] Sylwch fod gofynion cyfraith diogelu data yn wahanol, a bydd angen i chi gynnal asesiad mynediad plant ar wahân, er efallai y byddwch yn gallu defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad tebyg ar gyfer y ddau.

1.6 Bydd y canllawiau hyn yn helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall eu dyletswyddau mewn perthynas ag asesiadau o fynediad plant a sut gallant gynnal asesiadau o fynediad plant.[6] Dylai cynnal asesiadau mynediad plant fod yn ymarfer syml i'r rhan fwyaf o ddarparwyr.

1.7 Bydd gwasanaethau Rhan 3 sy'n dod i'r casgliad bod plant yn debygol o gael mynediad yn dod o fewn cwmpas y dyletswyddau diogelwch plant yn y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt:

- cynnal asesiadau risg i blant (i gael rhagor o fanylion, gweler [Canllawiau Asesiad Risg i Blant][7]); a
- cymryd camau i gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch perthnasol sy'n amddiffyn plant (i gael rhagor o fanylion, gweler [Codau Diogelwch Plant][8]).

[1] Adran 4(3) o'r Ddeddf.
[2] Fel sy'n ofynnol o dan adran 36 o'r Ddeddf.
[3] Mae Adran 35 o'r Ddeddf yn diffinio "asesiad o fynediad plant"; mae Adran 37 o'r Ddeddf yn egluro ystyr "plant yn debygol o gael mynediad".
[4] Adran 35(2) o'r Ddeddf.
[5] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), 2023. Canllawiau plant yn debygol o gael mynediad. Ni ddylid tybio bod unrhyw beth yn y canllawiau hyn yn rhoi sylw ar ofynion cyfraith diogelu data.
[6] Mae adran 52(3)(b) o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn llunio canllawiau i wasanaethau Rhan 3 i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau sy'n ymwneud ag asesiadau o fynediad plant.
[7] Mae ein Canllawiau Asesiadau Risg i Blant yn cael eu cyhoeddi yn Atodiad 6 ein Hymgynghoriad Mai 2024 ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein ('Ymgynghoriad Mai 2024'). Byddwn yn diweddaru'r canllawiau hyn gan gyfeirio at fersiwn derfynol ein Canllawiau Asesiadau Risg i Blant pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.
[8] Mae ein Codau Diogelwch Plant drafft yn cael eu trafod yng Nghyfrol 5 ein Hymgynghoriad Mai 2024 a'u cyhoeddi yn Atodiad 7 (gwasanaethau U2U) ac Atodiad 8 (gwasanaethau chwilio) ein Hymgynghoriad Mai 2024. Byddwn yn diweddaru'r canllawiau hyn gan gyfeirio at fersiynau terfynol ein Codau Diogelwch Plant pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

1.8 Mae **Ffigur 1** yn rhoi trosolwg lefel uchel o bob cam o asesiad mynediad plant:

**Ffigur 1: Cynnal asesiad mynediad plant**

### Beth yw asesiadau mynediad plant?

Asesiad i bennu a yw **plant yn debygol o gael mynediad** at wasanaeth. Mae dau gam iddo:

**Cam 1**

A yw'n bosibl i blant gael mynediad at y gwasanaeth fel arfer?

Dim ond os oes gennych chi **sicrwydd oedran effeithiol iawn** y gallwch chi ddod i'r casgliad yw nad yw hi'n bosibl i blant gael mynediad at y gwasanaeth.

→

**Cam 2 (amod defnyddiwr sy'n blentyn)**

A oes nifer sylweddol o blant yn defnyddio'r gwasanaeth?

A yw'r gwasanaeth yn debygol o ddenu nifer sylweddol o blant?

Dim ond os na chaiff y naill faen prawf na'r llall eu diwallu y gallwch chi ddod i'r casgliad nad yw'r amod defnyddiwr sy'n blentyn wedi'i ddiwallu.

### Pa wasanaethau sy'n gorfod cynnal asesiadau mynediad plant?

Rhaid i bob darparwr gwasanaeth Rhan 3 gynnal asesiadau mynediad plant. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr
- Gwasanaethau chwilio

Os ydych yn darparu **mwy nag un** gwasanaeth Rhan 3, rhaid i chi **gynnal asesiadau mynediad plant ar wahân ar gyfer pob un**.

Os mai dim ond **rhan o'ch gwasanaeth** y gall plant ei defnyddio, rhaid i chi gynnal yr asesiad mynediad plant ar gyfer y rhan o'r gwasanaeth y gallant ei defnyddio.

↓

### Pryd mae angen i wasanaethau gynnal yr asesiad mynediad plant cyntaf?

Mae gennych **dri mis** i gwblhau'r asesiad mynediad plant cyntaf. Bydd hyn dri mis ar ôl:

- **Y diwrnod y byddwn yn cyhoeddi'r canllawiau hyn,** h.y. erbyn 16 Ebrill 2025; **neu**
- **Y diwrnod cyntaf y daw eich gwasanaeth o fewn cwmpas Rhan 3 am y tro cyntaf.**

↓

### Pryd mae angen i wasanaethau gynnal asesiad mynediad plant <u>newydd</u>?

Os byddwch yn dod i'r casgliad **nad yw plant yn debygol o gael mynediad at eich gwasanaeth**, rhaid i chi gynnal asesiadau mynediad plant pellach **ddim mwy na blwyddyn ar wahân**.

Rhaid i chi hefyd gynnal asesiad mynediad plant newydd:

- cyn gwneud unrhyw newid sylweddol i unrhyw agwedd ar ddyluniad neu weithrediad y gwasanaeth
- mewn ymateb i dystiolaeth am lai o effeithiolrwydd o ran sicrwydd oedran
- mewn ymateb i dystiolaeth am gynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth